**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

**National Assembly for Wales**
Public Accounts Committee

Mike Hedges
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a
Materion Gwledig
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

6 Tachwedd 2018

**Cyfoeth Naturiol Cymru**

Annwyl Mike,

Fel y gwyddoch, mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus wedi bod yn craffu ar Gyfoeth Naturiol Cymru a'i Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2015-16 ac rydym yn rhagweld y byddwn yn cyhoeddi adroddiad ar 12 Tachwedd 2018. Cynhaliodd y Pwyllgor y gwaith craffu hwn yn dilyn cymhwyso barn reoleiddiol Archwilydd Cyffredinol Cymru ar ddatganiadau ariannol Cyfoeth Naturiol Cymru mewn perthynas â dyfarnu contractau gwerthu coed i weithredwr melin llifio ym mis Mai 2014. Dyma'r drydedd flwyddyn yn olynol y bu'n rhaid i'r datganiadau ariannol gael eu cymhwyso am y rheswm hwn.

Ffocws adroddiad y Pwyllgor yw dyfarnu'r contractau gwerthu coed, ond manteisiodd y Pwyllgor ar y cyfle hefyd i ystyried materion ehangach sy'n codi o Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer 2017-18. Rwy'n ymwybodol bod y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig yn ymgymryd â gwaith craffu blynyddol ar Gyfoeth Naturiol Cymru yn ystod tymor yr hydref, ac roeddwn am roi gwybod i chi am rai o'r materion ehangach sy'n deillio o'n hystyriaeth o'r Cyfrifon a'r Adroddiad Blynyddol, a restrir isod.

- **Sicrhau gwerth am arian**

Fe wnaethom edrych yn fanwl ar sut mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn mesur effeithiolrwydd ei gyllid, ac yn sicrhau gwerth cyffredinol am arian. Gofynnwyd a oedd yn foddhaol bod barn y Rheolwr Archwilio Mewnol bod gan Gyfoeth Naturiol

Cymru ‘sicrwydd cymedrol’ ynghylch pa mor ddigonol ac effeithiol yw ei ddulliau rheoli mewnol.  Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi gwella ei ffocws ar lywodraethu mewnol i warchod ei adnoddau ac i sicrhau gwerth am arian i drethdalwyr Cymru.

- Talu i’r cyn Brif Weithredwr

Gwnaed taliad i gyn Brif Weithredwr Cyfoeth Naturiol Cymru o dan gytundeb setlo, y mae ei fanylion yn parhau’n gyfrinachol.   Mae gan y Pwyllgor hwn bryderon ynghylch diffyg tryloywder o ran natur y taliad.

- Staffio/Dylunio/Trawsnewid y Sefydliad

Ar hyn o bryd mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymgynghori â’i staff ar strwythur newydd, sef y pwynt pan gyflawnir yr integreiddio rhwng y tri chorff etifeddiaeth. Bydd hwn yn ymarfer ailstrwythuro ledled y sefydliad, gyda’r nod o fod yn gweithredu’r model newydd o 1 Ebrill 2019 ymlaen.  Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn amcangyfrif y bydd y newidiadau hyn yn gwireddu mwy na £171 miliwn o ran buddion.

- Absenoldeb oherwydd salwch

Nododd y Pwyllgor fod rhagor o absenoldeb salwch wedi’i nodi gan Gyfoeth Naturiol Cymru yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf nag yn 2015-16.  Un o’r meysydd ble y gwelwyd y cynnydd mwyaf yn hyn o beth yw maes iechyd meddwl, ac mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn trin hyn o ddifrif drwy ddarparu cymorth i’w staff.  Mae wedi cyflwyno system o gynorthwywyr cyntaf o ran iechyd meddwl, ac mae’n gweithio tuag at gyflawni safon iechyd gorfforaethol Llywodraeth Cymru.

- Rhwymedigaethau posibl

Mae Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2017-18 yn rhoi gwybodaeth am rwymedigaethau posibl Cyfoeth Naturiol Cymru.  Yn yr adroddiad, nodir:

'Mae achos ffurfiol wedi ei gyflwyno am hawliad sifil gan drydydd parti am y defnydd o gerrig gan Gyfoeth Naturiol Cymru ac un o'i gyrff rhagflaenol.'.

Cyfrifodd Cyfoeth Naturiol Cymru mai £225,000 oedd ei rwymedigaeth gysylltiedig bosibl ar 31 Mawrth 2018.

Mae tudalen 96 o'r Adroddiad Blynyddol hefyd yn nodi:

'Cyflwynwyd dau adolygiad barnwrol yn erbyn Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystod y flwyddyn'.

Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys gwybodaeth bellach am yr Adolygiadau Barnwrol: mewn perthynas â hysbysiad atal dros dro a gyflwynwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru; ac yn ymwneud â materion hysbysiad statudol gan Gyfoeth Naturiol Cymru mewn perthynas â dychwelyd gwastraff.

Efallai y bydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig am geisio'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y ddau Adolygiad Barnwrol a'r costau tebygol o amddiffyn yr achosion hyn ynghyd ag unrhyw rwymedigaeth bosibl ar ran Cyfoeth Naturiol Cymru o ganlyniad i'r penderfyniadau.

Gobeithio y bydd y materion hyn o ddiddordeb ac o gymorth i chi yn ystod eich gwaith craffu.

Yn gywir,

**Nick Ramsay AC**
**Cadeirydd**